# ATODIAD A – PENNOD 8 AC ATODIADAU

## Pennod 8 - Monitro a gweithredu

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Ymateb ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 361 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | 8.1 | Gwrthwynebu | Wrth gyfeirio at thema 5, rydym yn awgrymu cynnwys rhagor o ddangosyddion fel bod modd asesu effaith y Cynllun yn llawn ac yn gywir. At hyn, dylid addasu'r lefelau sbarduno i adlewyrchu'r ffaith nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthwynebu materion sy'n cael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn lleol. | **Derbyn** – Cynnwys dangosydd ychwanegol i gyfeirio at WNLl a Safleoedd Bywyd Gwyllt yn ogystal a chynefinoedd CGBLl. Yn ogystal a hynny cael gwared o gyfeiriad at CNC lle mae'n briodol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid Thema 5 yn unol a nodir uchod.<br><br>**Newid a ffocws** |
| 1065 | Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] | 8.3 | Gwrthwynebu | Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r rhannau canlynol o'r fframwaith: * Datblygu safleoedd yn raddol, eu cyflawni, unrhyw sbardun perthnasol a chamau<br>gweithredu cysylltiedig. * Dylid cynnwys targedau a sbardunau er mwyn sicrhau bod y | **Derbyn** – cytunir y dylid gwella'r fframwaith i gynnwys dangosyddion datblygu cynaliadwy perthnasol a dangosyddion craidd a welir yn Llawlyfr |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Ymateb ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | prif elfennau'n cael eu cyflawni. * Aildrefnu yn y fath fodd fel nad yw dangosyddion allbwn craidd Llywodraeth Cymru bob tro yn gysylltiedig â'r dangosydd allbwn lleol. * lle'n briodol, diwygio dangosyddion craidd i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. * dylid ystyried goblygiadau'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'w casglu o fis Ebrill 2013 ymlaen a'r gwaith parhaus ar fireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol. | CDLl<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid yn unol a'r uchod<br><br>**Newid â Ffocws** |
| 1064 | Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] | 8.5 | Gwrthwynebu | Nid yw'n glir pam fod yr awdurdod wedi penderfynu cael dwy fframwaith monitro ar wahân (para 8.5). | **Derbyn –** cytunir y byddai'r rhan yma yn elwa trwy wneud man newidiadau i egluro'r sefyllfa.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid y cyflwyniad yn unol a'r uchod<br><br>**Newid â Ffocws** |
| 479 | Ffedarasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) | 8.8 | Gwrthwynebu | Yn ôl Thema 4 Dangosydd D26 y Targed Polisi: Nid yw'r raddfa ddatblygu'n mynd dim uwch na 2,604 uned yng nghyfnod 2011 i 2018. Ymddengys mai polisi fesul cam yw hwn sydd | **Derbyn yn rhannol** – ar ôl rhoi ystyriaeth i'r mater cytunir y byddai Thema 4 yn well pe fyddai'n cynnwys |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Ymateb ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | [1470] | | | ddim wedi'i ddatgan yn glir yn adrannau polisi'r ddogfen. Rydym wedi gwrthwynebu hwn mewn rhan arall o'n sylwadau ID:130. Dileu'r targed tai sydd wedi ei rannu gan ei fod yn ofyniad adeiladu cam wrth gam. | cyfeiriad clirach at gyflenwad 5 mlynedd a'r dangosyddion cynaliadwy a chraidd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid geiriad yn unol a'r uchod.<br><br>**Newid â ffocws** |
| 847 | Mr Rob Booth [3033] | 8.8 | Gwrthwynebu | Cytunaf gyda'r dangosyddion monitro ar gyfer cludiant cyhoeddus (D4, D6, D7) fodd bynnag rwy'n anghytuno gyda dangosydd D5 i leihau amseroedd siwrneiau mewn ceir. Pam fod un o'r dangosyddion yn seiliedig ar ostwng amseroedd siwrneiau? Y cyflymaf mae ceir yn teithio, y mwyaf o danwydd a ddefnyddiant, a'r mwyaf peryglus yw'r daith. Mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o bobl yn defnyddio ceir yn hytrach na bysus. Hefyd, dylid cael dangosydd bod y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yn cael ei gynnal fel y mae neu ei gynyddu, a bod nifer y bysus heb leihau, ond wedi cynyddu. Yr amseroedd sydd ar gael i wasanaethau bws yw e.e. yn fuan yn y bore ac ehangu'r ddarpariaeth o fysus gyda'r hwyr. | **Derbyn yn rhannol** – newid i gyfeirio at hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Newid geiriad yn unol a'r uchod.<br><br>**Newid â ffocws** |

## Atodiadau

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 478 | Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254] | Rhestr Dogfennau Allweddol | Gwrthwynebu | Mae'n ymddangos y cynhaliwyd yr asesiad o Safle Arfaethedig cyfeirnod cyflwyniad: SP870 ar wahân i Safle Arfaethedig cyfeirnod cyflwyniad: SP552 sy'n hynod gysylltiedig (copïau ynghlwm). Dylai'r cyfeiriad fod yr un fath (Rheilffordd Eryri Cyf yn masnachu fel Rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru) a'r defnydd arfaethedig wedi'i ddisgrifio'n well fel twristiaeth. Byddai modd cael mynediad trwy'r safle hwnnw, nid yn annibynnol arno. Ddylai dull gweithredu'r polisi '... dyfarnu ... yn erbyn y polisi/meini prawf ... yn y cynllun datblygu a fabwysiadwyd' hefyd fod yn debyg? | **Dim yn derbyn** – <br><br> Tra bod ystyriaeth wedi ei roi i'r ddau safle hyn ar y cyd, o gofio eu bod wedi eu cyflwyno fel safleoedd ar wahân, fe rannwyd y safleoedd yn y modd hwn. Derbyn fod cysylltiad rhwng y ddau safle ond fe ystyrir mai dim ond safle SP552 sydd yn addas i'w gynnwys o fewn ffin ddatblygu Porthmadog. <br><br> Nodir fod Polisi TWR1 yn berthnasol yn yr achos hwn. Tra rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr o fewn ffin ddatblygu, nid yw'n gwahardd datblygiadau ar safleoedd tu allan i ffin ddatblygiadau pan fo hynny'n berthnasol. <br><br> Nodir fod safle SP870 yn ymestyniad llinol hir a chul i gefn gwlad ac o'r herwydd credir byddai ei gynnwys o fewn y ffin ddatblygu yn anaddas, yn enwedig o gofio goblygiadau hyn mewn perthynas â pholisïau eraill y CDLl ar y Cyd, megis polisïau tai. <br><br> **Argymhelliad** <br><br> Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 474 | Mr Geraint Evans [2962] | Rhestr o Aneddleoedd | Cefnogi | Re: Botwnnog - Cae SP433<br>Cytuno gyda'r safle posib yma.<br>Canolog i'r pentref, mynediad uniongyrchol o'r safle unai i'r briffordd B4413 neu i ffordd dawelach cyn ymuno a'r B4413.<br>Llwybr troed yn barod o'r safle yma yr holl ffordd i ganol y pentref ac i'r ddwy ysgol.<br><br>Mae Botwnnog bentref delfrydol i'w ddatblygu gan fod cyn gymaint o gyfleusterau yma e.e. Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd, Meddygfa, Siop, Caffi, Capel ac Eglwys. | **Nodi'r sylw** – Dynodiad tai T61 yw'r safle hwn.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 676 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | Rhestr o Safleoedd neu Ardaloedd wedi eu Gwarchod | Gwrthwyneb u | Ac eithrio Atodiad 7, nid oes cyfeiriad at y Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig a fawr ddim, os o gwbl, at yr Arfordir Treftadaeth. Mae'r ddau ohonynt o bwysigrwydd arbennig wrth warchod treftadaeth gorllewin Llŷn.<br><br>Dylid sôn mwy am yr Arfordir Treftadaeth a'r Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. | **Dim yn derbyn** –<br><br>Mae Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn cael eu hystyried ym Mholisi AT1. Nodir fod yr Arfordir Treftadaeth yn cael ei ystyried ym Mholisi AMG 3. Nodir fod y Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig ynghyd a'r Arfordir Treftadaeth wedi eu dangos ar y map cyfyngiadau mewn perthynas â'r CDLl ar y Cyd.<br><br>**Argymhelliad** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 363 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] | Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol Arfaethedig | Cefnogi | Rydym yn cefnogi cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth ond yn gofyn am eglurder ynghylch a yw Canllawiau Cynllunio Atodol Gwynedd wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor. Nodwn y bwriad i adolygu, diweddaru ac ymestyn y Canllawiau cyn pen 18 mis i fabwysiadu'r Cynllun. | **Nodi’r sylw** –<br><br>Mae’r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn gysylltiedig â CDU Gwynedd wedi eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys CCA mewn perthynas â ‘Safleoedd Bywyd Gwyllt’.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |
| 610 | Mr Paul Madden [3032] | Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol Arfaethedig | Gwrthwynebu | Nid yw Atodiad 9 yn rhoi disgrifiad digonol o'r CCA cyfredol sydd mewn grym ac y bydd angen eu hadolygu yn sgil y cynllun newydd. Byddai cael rhestr gyfan yn caniatáu i'r ymatebwyr gyfeirio at y CCA er mwyn deall oblygiadau'r cynllun ar eu cynnwys.<br>Nid yw'n eglur a oes cyfeiriad i'r CCA cyfredol ar Ynni Gwynt ar y Tir a oedd yn destun ymgynghori a sylwadau eang yn 2013. Dylid fod wedi cydnabod ei gynnwys wrth greu polisi ADN1.<br>Angen rhestr gyfan o'r CCA cyfredol ac a fyddant yn cael eu hadolygu neu eu disodli. | **Dim yn derbyn** –<br><br>Mae’r rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol a nodir yn Atodiad 9 yn cyfeirio at y canllawiau newydd arfaethedig fydd yn cael eu paratoi i gefnogi polisïau’r CDLl ar y Cyd. Ni fydd y Canllawiau sydd wedi eu mabwysiadu yn bresennol yn berthnasol felly mewn perthynas â’r Cynllun hwn.<br><br>Nodir y bydd y CCA ‘Lleoli datblygiad ynni adnewyddol ar wahân’ yn berthnasol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir. Bydd yn |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | darparu gwybodaeth i gefnogi Polisi ADN1. O safbwynt y CCA hwn, fe nodir yn Atodiad 9 y "bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Môn) yn cael eu hadolygu , diweddaru a'u hymestyn o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun".<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

## Sylwadau cyffredinol

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 563 | Mr John E. Williams [3013] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Fel y mae, nid yw'r drefn rhoi sylwadau yn hygyrch i nifer fawr o drigolion Môn a Gwynedd. Nid oes gan rai'r adnoddau na'r gallu i gael mynediad i'r ffurflen ar-lein, a phan maent yn cael mynediad iddi, nid ydyw'n cyfathrebu ar lefel y gallent ei deall. Efallai fod y ffurflen yn dderbyniol i adrannau cynllunio a | **Dim yn derbyn** –<br><br>Mae'r we yn fodd o alluogi nifer eang o bobl i weld y Cynllun, fodd bynnag derbyn nad oes gan bawb fynediad iddo. Roedd copi papur o'r Cynllun Adnau ar gael i'w gweld mewn llyfrgelloedd a Swyddfeydd y Cyngor yn ystod |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwmnïau ynni, ond mae'n cynrychioli 'iaith swyddogol' nad yw'r unigolyn arferol yn gallu ei deall. Oherwydd bod rhaid iddi gyflawni swyddogaeth fel dogfen ymgynghorol, rhaid iddi fod ar gael i bawb yn hawdd ac wedi'i gosod yn haws. | y cyfnod ymgynghori. Mae gwybodaeth o ran y camau allweddol ym mharatoad y Cynllun wedi eu hysbysebu mewn papurau newydd perthnasol. Hefyd, er enghraifft, mae pawb sydd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun yn cael eu hysbysu a'u diweddaru adeg camau allweddol drwy e-bost neu lythyr.<br><br>Ceisiwyd gwneud y Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiol mor syml â phosib i'w dilyn o ran eu hiaith a'r modd y maent wedi eu gosod allan.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 570 | Angela Williams [3016] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Nid yw'r Cynllun ond ar gael ar y we ac mae hyn yn enghraifft o wahaniaethu. Nid yw mater pwysig twristiaeth wedi'i gynnwys. Newidiadau: i) Pecyn gwybodaeth i bob aelwyd trwy'r post ii) Ffurflenni cais ar gael mewn Swyddfeydd Post iii) Opsiwn Rhadbost iv) Dylid cynnwys effeithiau andwyol posib nifer lluosog o dyrbinau gwynt mewn ardaloedd twristiaeth fel ystyriaeth gynllunio ddilys. | **Dim yn derbyn** –<br><br>Mae copïau papur o'r holl ddogfennau sydd ymwneud a'r CDLl ar y Cyd ar gael, gan gynnwys felly'r Cynllun Adnau.<br><br>Mae dogfennau ar gael mewn llyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor.<br><br>Mae'r lefel o adnoddau yn ei gwneud yn anodd i gysylltu yn uniongyrchol gyda phawb yn ardal |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | y Cynllun. Credir fod pob ymdrech wedi ei wneud i hysbysebu'r camau perthnasol o fewn y broses o baratoi'r Cynllun a'r dogfennau cysylltiol mewn modd sydd mor effeithiol â phosib.<br><br>Derbyn y gellir ystyried ffurf gwahanol o hysbysebu ac ymgynghori yn y dyfodol.<br><br>Nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt.  Ceir cyhoeddiad ar safle we Llywodraeth Cymru sydd yn cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 595 | Age Cymru Gwynedd a Mon (Stephen Williams) [3030] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Anogwn y ddau Gyngor i sicrhau y rhoddir ystyriaeth deilwng i'r ymrwymiad a gytunwyd arno yn Natganiad Dulyn a chefnogi'r prif amcanion a nodwyd yn y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru wrth ystyried polisïau cynllunio a datblygu Ynys Môn a Gwynedd yn y dyfodol. | **Dim yn derbyn** – <br><br>Nodir sylw. Credir fod y Cynllun yn ystyried ac yn diwallu anghenion pobl hŷn yn effeithiol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim newid** |
| 597 | The Coal Authority (Mr James Smith) [2998] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Mae'r Awdurdod Glo wedi adolygu'r dogfennau sydd ar gael ac wedi nodi nifer o faterion yr hoffai weld yn cael eu datrys.<br><br>Awgrymwn y newidiadau hyn:<br>Dylid rhoi ystyriaeth lawn i rannau o'r polisi cynllunio sy'n ymwneud â'r Awdurdod Glo:<br>-diogelu glo yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru - Mwynau a MTAN2 yng Nghymru;<br>-sefydlu fframwaith polisi priodol ar gyfer mwynau ynni gan gynnwys hydrocarbonau yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru - Mwynau ac MTAN2 yng Nghymru; a<br>-sicrhau fod datblygu yn y dyfodol yn cael ei ymgymryd mewn modd diogel sy'n lleihau'r cyfrifoldeb ar y trethdalwr ar gyfer ymsuddiant a hawliadau peryglon eraill yn ymwneud â mwyngloddio sy'n deillio o etifeddiaeth | **Dim yn derbyn** – Ystyrir fod y polisïau sydd yn ymwneud a mwynau yn adlewyrchu'r arweiniad cyfredol a roddir ym Mhennod 14 o Bolisi Cynllunio Cymru (2016) ynghyd a MTAN2. Nid yw'r briodol i'r Cynllun ail-adrodd arweiniad polisi cenedlaethol..<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mwyngloddio yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru a MTAN2 yng Nghymru. | |
| 665 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Crynodeb Siediau Amaethyddol - mae angen polisi arbennig ar gyfer siediau amaethyddol sy'n debyg i bolisi D9 y CDUG. Mae ffermwyr angen y rhain, ond maent yn strwythurau mawr ac mae mwy a mwy ohonynt yn cael eu hadeiladu mewn ardaloedd gwledig. Ar hyn o bryd yn y maes cynllunio mae craffu ceisiadau am siediau i'w weld yn wan, ac mae angen rhoi mwy o sylw i'w lleoliad, eu lliw a math y deunyddiau a ddefnyddir. | **Dim yn derbyn** –<br><br>Mae hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol i lawer o adeiladau amaethyddol. Os bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer sied amaethyddol, gellir gweld gwybodaeth berthnasol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 (yn enwedig felly yn rhan 6).<br><br>Mae Polisi PCYFF2 yn berthnasol wrth ystyried effaith gweledol y siediau amaethyddol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 748 | Mr Rob Booth [3033] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Asesiad Effaith Iechyd - nid yw'r ddogfen hon yn sôn am y peth allai gael yr effaith fwyaf bosib ar iechyd yn yr ardal hon, sef adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae'r risg yn un i gymunedau sy'n bodoli, ond hefyd i boblogaeth yr ardal yn y dyfodol. Hoffwn herio pa mor gyflawn yw'r ddogfen hon, gan nad | **Dim yn derbyn –** Fel mae'r cyflwyniad i'r polisi strategol am cynigion am brosiectau isadeiledd mawr yn amlinellu bydd gorchmynion caniatâd datblygu ar brosiectau isadeiledd mawr megis gorsaf bŵer niwclear yn cael eu edrych ar y tu allan i broses y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Bydd materion iechyd yn ymwneud a fath |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yw'n cynnwys yr ardrawiad posib petai trychineb niwclear yn yr orsaf bŵer ac wrth gludo gwastraff ymbelydrol. | brosiect yn un o'r materion bydd yr Arolygaeth Gynllunio yn ei ystyried fel rhan o'i archwiliad o'r prosiect.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 756 | Mr Rob Booth [3033] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Tai: dylid bod mwy o dai sy'n perthyn i gymdeithas tai. Dylai'r polisïau bwysleisio'r gofyn am dai cymdeithasol a thai cymysg. Dylai pob datblygiad tai gynnwys cyfran o dai cymdeithasol h.y. tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai. | **Dim yn derbyn** – <br><br> Cefnogir y rôl bwysig sydd gan Gymdeithasau Tai o ran darparu tai i gwrdd ag anghenion penodol yn lleol. <br><br> Mae Polisi TAI9 yn darparu'r trothwyon ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan gynnwys taliad pro rata ble nad yw darparu uned fforddiadwy yn bosib. Mae'n bwysig fod y math o dai a ddarperir yn cwrdd â'r anghenion cydnabyddedig, gan gynnwys felly ar gyfer tai cymdeithasol a canolraddol. <br><br> Tra'i bod yn bwysig darparu'r gymysgedd briodol o dai, mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Ni ellir mynnu bod Cymdeithas Dai yn rhan o bob datblygiad preswyl. Mae'n debyg y bydd oblygiadau ariannol i'r cymdeithasau tai yn ogystal o ran hyn. <br><br> **Argymhelliad** <br><br> Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. <br><br> **Dim Newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 910 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Rydym o'r farn fod y CDLl ar y Cyd yn llai strwythuredig, cryno a chydlynol na'r CDU cyfredol o ran ei gyflwyniad, ei bwyslais a'r polisïau sy'n cael blaenoriaeth. Darparu cyswllt i'r CDUG gan gynnwys dadansoddiad o berfformiad y CDUG, a'r rhesymau dros y newidiadau o ran y dull a'r pwyslais. Darparu polisïau ychwanegol, mwy penodol a chryno ar gyfer pob math o ddatblygiad cynllunio ar fodel y CDUG. Gwella'r arddull a'r cyflwyniad, prawf-ddarllen yr atalnodi a'r gramadeg. Peidio â defnyddio jargon. Symleiddio'r iaith. Matrics yn cysylltu polisïau perthnasol y CDLl ar y Cyd â'r gwahanol fathau o gynigion cynllunio. | **Dim yn derbyn** –<br><br>Ni fydd y CDLl ar y Cyd yn cynnwys polisi ar gyfer pob math o ddatblygiad. Ni fydd ychwaith yn ail-adrodd arweiniad polisi cenedlaethol.<br><br>Nid oes modd i'r Cynllun ystyried pob math o ddatblygiad. Mae rhestr o'r holl bolisïau wedi ei nodi yn Atodiad 8.<br><br>Tra bod yn rhaid defnyddio rhai termau technegol, nodir fod y Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiol yn ceisio arddull syml cyn gymaint a phosib. Nodir y bydd y Cynllun yn cael ei brawf ddarllen.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |
| 971 | Cyngor Cymuned Llanrug. (Mr Meirion Jones) [3134] | Sylwadau cyffredinol | Cefnogi | Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn datgan bodlonrwydd ar y Cynllun. | **Nodi'r sylw cefnogol**<br><br>**Argymhelliad**<br><br>**Dim newid** |

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhelliad swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 1822 | Mr Thomas Conway [3371] | Sylwadau cyffredinol | Gwrthwynebu | Mae'r Cynllun Adnau yn rhy fawr, yn anymarferol ac yn rhy ddarniog i gael ei gyflwyno i ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r holl wybodaeth ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd wedi cael ei chyfuno sy'n golygu fod y dogfennau'n eithriadol o hir. Mae'r ddwy sir yn wahanol gyda gwahanol anghenion ac mae angen gwahanol bolisïau ar eu cyfer. Mae diffyg croesgyfeirio o fewn dogfennau ac nid yw'r ffurflen cyflwyno sylwadau'n addas i'w phwrpas. Nid yw cyfnod ymgynghori o chwech wythnos yn hanner digon, er eu bod ar gael yn y llyfrgelloedd, nid yw'r rhain ar agor pob amser. | **Dim yn derbyn** –<br><br>Nodir fod y dull o baratoi'r Cynllun yn cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol. Mae'n bwysig iawn fod cynnwys y Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth eang a chynhwysfawr.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br><br>**Dim Newid** |